# Buddion... Skype

**Skype** yn rhaglen gyfrifiadurol am ddim sy'n hwyluso siarad gyda phobl ar y rhyngrwyd wrth wneud galwadau fideo a/neu sain. Rhaid i'r ddau berson gael Skype ar gyfrifiadur a chysylltiad band llydan da. Gyda Skype gallwch wneud yr isod:

- galwadau rhad i ffonau sefydlog a symudol
- anfon negeseuon testun a fideo
- rhannu ffeiliau a lluniau
- galwadau cynhadledd.

Buddion Skype...

## 1. Wyneb yn wyneb

Galwch wneud galwad fideo am ddim i unrhyw un arall gyda meddalwedd Skype ar eu cyfrifiadur. Mae siarad wyneb yn wyneb yn llawer gwell na galwad sain, gan gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a'r teulu sy'n rhy bell i ffwrdd i'w gweld yn rheolaidd.

## 2. Hygyrchedd

Skype yn arf gwych ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw wrth alluogi defnyddwyr BSL a darllenwyr gwefusau i sgwrsio wyneb yn wyneb. Mae nifer o wasanaethau arlein sy'n gallu helpu defnyddwyr Skype i gysylltu â'i gilydd. Er enghraifft, gael cyfweliad swydd ar Skype neu siarad gyda rhywun mewn iaith arall – bydd cyfieithydd yn trosi'r geiriau i'r ddwy ochr o'r sgwrs.

## 3. Sgyrsiau grŵp

Os am rannu newyddion gyda ffrindiau a'r teulu, gallwch wneud hynny mewn sgwrs grŵp.

## 4. Costau

Y peth gorau am Skype yw'r ffaith nad yw'n destun unrhyw gostau ychwanegol. Gallwch siarad am ddim gydag unrhyw un yn y byd sydd â Skype a band llydan.

**Dechrau**

- **1.** Llwytho'r pecyn o'r wefan www.skype.com




- **2.** Creu cyfrif .




- **3.** Ychwanegu enwau wrth glicio tab contacts, a chwilio geiriadur skype.




- **4.** Dewis unigolyn – a dechrau sgwrsio!